Page

# Chwe ardal, tref a dinas ar draws y DU i elwa o fuddsoddi hirdymor

15/10/2025

Image not found or type unknown

Hundreds of people are gathered, enjoying the sunshine, around a historic ship in dry dock on the Belfast quayside.
Dathlu G?yl Forwrol Belfast ar lannau Afon Lagan. Llun: Maritime Belfast Trust.

Rydym wrth ein bodd i gyhoeddi ariannu ar gyfer y Treftadleoedd newydd hyn, y bennod nesaf mewn taith 10 mlynedd i helpu lleoedd i ffynnu drwy gysylltu cymunedau â'r dreftadaeth ar garreg eu drws.

Mae'r lleoliadau newydd yn ymuno â'r naw Treftadleoedd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023. Gyda'i gilydd, byddant yn rhannu buddsoddiad o £200 miliwn sydd â'r nod o ddatgloi potensial treftadaeth i roi hwb i economïau lleol a balchder yn eu lle.

> Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, bydd ein harian yn creu cyfleoedd i bobl leol ddatblygu syniadau beiddgar, dysgu sgiliau treftadaeth a chreu cyflogaeth.
>
> Eilish McGuinness, Prif Weithredwr, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
>
> Image not found or type unknown
>
> Two visitors listen to a tour guide explain the history of a ring of standing stones.
> Taith gerdded dywysedig yng Nghylch Brodgar, rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Llun: Orkney.com.

Y chwe Treftadleoedd newydd yw:

**Barking a Dagenham**, Llundain

Un o'r bwrdeistrefi sy'n esblygu gyflymaf yn y brifddinas – ifanc, amrywiol a chyfoeth o hanes, o'i wreiddiau diwydiannol i'w chysylltiadau â Chynllwyn y Powdwr Gwn.

**Ynys Môn**, Gogledd Cymru

Ynys o forliniau dramatig, treftadaeth gyfoethog a harddwch naturiol. O erddi cain Plas Newydd i dywod euraidd Bae Traeth Coch, mae'n hafan o dreftadaeth a hanes.

**Tameside**, Manceinion Fwyaf

Yn gyfuniad o naw ardal wahanol, mae'n gartref i drysorau diwylliannol fel Amgueddfa Portland Basin, Oriel Gelf Astley Cheetham ac Amgueddfa Catrawd Manceinion, ochr yn ochr ag eglwysi hanesyddol a threftadaeth ddiwydiannol.

**Ynysoedd Orch**, Yr Alban

Ynysfor o dros 70 o ynysoedd gydag ysbryd cymunedol bywiog ac etifeddiaeth ddiwylliannol sy'n ymestyn dros 5,000 mlynedd, o aneddiadau Mesolithig i gadarnleoedd y Llychlynwyr.

**Glannau Hanesyddol Belfast**, Gogledd Iwerddon

Yn borthladd gweithredol ers dros 300 mlynedd, roedd Belfast ar un adeg yn gartref i iard longau fwyaf y byd. Heddiw, mae glannau Afon Lagan yn gartref i gymdogaethau bywiog sy'n llawn treftadaeth a natur, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer adfywio.

**Dudley**, Gorllewin Canolbarth Lloegr

Wedi'i lleoli yng nghanol y Wlad Ddu, mae'r fwrdeistref yn cyfuno treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog â gwarchodfeydd natur a rhyfeddodau daearegol.

Image not found or type unknown A large red book, open to a page depicting a painting of a historic Barking and Dagenham pub, captured in the
Ymchwilio i'r archifau i archwilio hanes cymdeithasol Barking a Dagenham. Llun: Grainge Photography.

# Cyflwyno ein strategaeth Treftadaeth 2033

Y chwe Lle Treftadaeth newydd sy'n cael eu cyhoeddi heddiw yw'r cam diweddaraf yn y broses o gyflwyno ein Strategaeth Treftadaeth 2033, ac mae'n cyfrannu at ein gweledigaeth o werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal i bawb, nawr ac yn y dyfodol.

Mae pob lleoliad wedi'i ddewis drwy ddull seiliedig ar dystiolaeth sy'n cyfuno ymchwil feintiol newydd gyda mewnwelediad lleol i nodi lleoedd sydd ag anghenion, cyfleoedd a photensial o ran treftadaeth.

Image not found or type unknown The thirteenth century keep of Dudley Castle, flying a cross of St. George, rises above the skyline of the town.
Dudley Castle. Llun: Dudley Council.

Hyd yma, rydym wedi buddsoddi mwy na £4m mewn Treftadleoedd ar draws y DU, o Gastell-nedd Port Talbot i Ogledd-ddwyrain Swydd Lincoln.

# Sbarduno dychymyg, cynnig ysbrydoliaeth

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: “Mae Treftadleoedd yn ymwneud â dathlu amrywiaeth o dreftadaeth – gan sbarduno dychymyg, cynnig ysbrydoliaeth a helpu cymunedau i ffynnu trwy gysylltu’r gorffennol â’u dyfodol.

“Ein hymrwymiad yw ymwreiddio treftadaeth mewn strategaethau lleol, cryfhau cysylltiadau cymunedol a chefnogi uchelgeisiau hirdymor. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, bydd ein harian yn creu cyfleoedd i bobl leol ddatblygu syniadau beiddgar, dysgu sgiliau treftadaeth a chreu cyflogaeth.”

# Dyfodol llewyrchus, wedi'i adeiladu o amgylch treftadaeth

Croesawodd Arweinydd Cyngor Ynys Môn, y Cynghorydd Gary Pritchard, y cyhoeddiad:?“Mae hwn yn gyfle cyffrous i Ynys Môn. Rydym yn falch bod yr ynys wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol ac yn ddiolchgar i'r Gronfa Treftadaeth am ei hymrwymiad ariannu.

Image not found or type unknown A lone white lighthouse sits atop a stack of rock on the craggy shoreline of Ynys Mon, looking out over the M
T?r Mawr Lighthouse, Ynys Môn.

“Ein nod nawr yw ehangu cynnig treftadaeth gyfoethog yr ynys, gan sicrhau y gall wneud cyfraniad sylweddol at gymunedau lleol a dyfodol economaidd-gymdeithasol Ynys Môn. Rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid, rhanddeiliaid lleol, grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb i gyflawni hyn.”

## Cefnogi cyfleoedd newydd a balchder mewn lle

Dim ond un o'r ffyrdd y gallwn gefnogi adfywio, cydnerthedd a pherthnasedd treftadaeth ar draws y DU yw Treftadleoedd.

Os ydych chi'n ystyried prosiect a arweinir gan dreftadaeth i drawsnewid lle fel stryd fawr, cymdogaeth hanesyddol neu dirwedd naturiol, gallwch wneud cais am hyd at £10m trwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Ymchwilio i'n hariannu.

## Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

Image not found or type unknown
A mock directional sign pointing to the nine Heritage Places

### Data ar gyfer Treftadleoedd – dadansoddiad newydd gan ddefnyddio'r Mynegai Treftadaeth

### Treftadleoedd: adroddiad gwerthuso blwyddyn 1

Image not found or type unknown
Torquay on the South Devon coast, with Torre Abbey in the foreground.

### Bydd ariannu gwerth £200 miliwn ar gyfer Lleoedd Treftadaeth yn rhoi hwb i economïau lleol a balchder yn eu lle